

Eirian Samuel

Marathon Llundain

## Rhino, Clingon ac Ayatollah!

**Y cychwyn - miloedd yn eu gwisgoedd rhyfeddol, yn gyffrous, yn awchu am ddechrau, yn ciwio am y tai bach!**

Y dechrau - ara' deg nawr, ddim isio chwythu ffiws cyn Y Cutty Sark. Wps, anghofio troi'r stopwatch mlaen. Y dorf yn gefnogol, addolwyr bore Sul yn cefnogi. O'dd raid i'r ficer daflu talp o ddŵr oer yn fy llygad chwith wrth iddo fendithio'r rhedwyr?

*Y canol* - Rhino Ken yn cadw cwmni i mi cryn dipyn o'r ffordd. Sut mae rhedeg yn y fath wisg? Cefnogwyr brwd yn gweiddi enwau'r rhedwyr wrth i ni basio. Rhyfeddu at y gefnogaeth, at y rhedwyr - rhai yn rhedeg er cof, eraill i ennill rhyw frwydr bersonol, eraill i fwynhau (ie, reit).



Y diwedd - mae yma rywle! Gweld y teulu ar y filltir olaf - 'ayatollah' bach i ddathlu a ffwr' a fi i'r diwedd. Sprint (ie, sprint) i ddal y ferch a'r faner Bluebirds o'm blaen!

*Uchafbwyntiau:* Popeth! Y dyn ar 23m yn gweiddi 'I've no idea how you pronounce that name, but you're doing great girl'. Gweld y teulu a'm ffrindiau 7 gwaith – hwre!

*Isafbwyntiau:* cyfnod y 'Clingon' ('clinging on for dear life' i'r llinell las o 23-26.2m gan wybod dyna oedd y ffordd cyflyma i'r diwedd). Fyddwn i 'di fflatio unrhyw un oedd yn sefyll yn fy ffordd - oherwydd doedd dim egni gennyf i symud o'u cwmpas!

Diolch pawb am eich cefnogaeth - rhwng y 30 ohonom yn rhedeg dros Cymorth Cristnogol bydd dros £50,000 wedi ei gasglu at waith y mudiad ledled y byd. Ac mae hynny yn gallu newid bywydau pobl yn sylweddol.

~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~



Llongyfarchiadau i Lowri (Clement) a Gwion ap Rhisiart (o Lanuwchllyn) ar eu priodas ddiwedd mis Ebrill.

**Croeso i Mia Haf** - merch fach Rachel a Steve Jones a wyres i Morwen a Byron Edwards, Creigiau.

**Ysgrifennydd Bethlehem:**
Rhys Dafis

**Rhif Ffôn:**
029 20 89 13 60

# Newyddion Bethlehem

Haf 2008





*Dyma nhw - aelodau ifanc newydd yr eglwys yn ystod eu cyfarfod derbyn. O'r chwith: Carys Angharad Huws, Owain Sion Griffiths, Ffion Elain, Rhodri Owain Lewis, Sioned Catrin Scott, Angharad Gwynneth King, Rhydian Pedr King, Marged Elin Sion, Enid Ann Evans, Betsan Mair Thomas, Llyr Owain, Carwyn Huw, Lowri Watts a'r Parchedig Ddr. R. Alun Evans.*

## Aelodau newydd – a diaconiaid newydd

**Braf cael cyhoeddi bod tri diacon newydd wedi derbyn eu henwebiad ar gyfer Bethlehem – Eirlys Davies, Radur, Marged Cartwright, Llandaf a'r Dr Ian Hughes, Pentre-poeth. Fel y gwelwch o sylwadau'r gweinidog yn y golofn ar y dde, bydd y tri'n cael eu croesawu i'r swydd newydd ar fore Sul, 13 Gorffennaf.**

**COLOFN Y GWEINIDOG**

Llongyfarchiadau i Eirlys a Marged ac Ian. Rwy'n edrych ymlaen at eu derbyn yn ddiaconiaid yng nghymun Gorffennaf.

Fel mae Gweinidog yn gwasanaethu'r eglwys, pobol sy'n gweini yw diaconiaid. Ac yn hynny o beth parhau ar eu cyfraniad i'r eglwys y bydd y tri. Fe fyddan nhw'n gweini trwy bontio rhwng carfanau o wahanol ardaloedd ac o wahanol oedran. Ymuno y byddan nhw â thîm sydd eisoes yn cyflawni llawer o gymwynasau a gwneud hynny heb ffws na ffwdan.

Yng nghyfarfod diwethaf y diaconiaid cytunwyd â'r bwriad o sefydlu Cyngor yr Ifanc. Y bwriad yw sicrhau llais a lle i'r ifanc yng ngweithgarwch yr eglwys. I fod yn effeithiol, bydd angen ffurfioli a hwyluso gwaith y Cyngor. Hwyrach mai trwy CAIB y daw'r ffordd orau o weithredu gan wahodd cynrychiolydd o'r Cyngor yn achlysurol i fynychu Cwrdd Diaconiaid.

Mae dau fwriad i ddatblygiad o'r fath (a) cyfle i'r cynrychiolydd fod yn llygad-dyst o drafodaethau cyffredinol a (b) cyfle i leisio barn ar ran y bobol ifanc ar faterion fel trefn a chynnwys oedfa.

Ar y trydydd Sul o Orffennaf byddwn yn ymuno ag eglwysi eraill Cyfundeb Dwyrain Morgannwg yn Ysgol Plasmawr. Thema'r bore yw 'Wynebu'r Her':

her y labordy, her yr aelwyd a her yr enwad. Trefnir y bore fel bod pob un sy'n bresennol – fel arfer mae tua 200 yn mynychu – yn gallu ymweld â dwy o'r tair seminar. Dewch i gwrdd ag Annibynwyr eraill y rhan hon o Gymru. A gwnewch yn siŵr eu bod yn ymwybodol fod cynrychiolaeth o Fethlehem yn bresennol trwy gyfrannu i'r trafodaethau.

Wedyn fe fydd hi'n Steddfod, yn wyliau … a gobeithio y cawn ni fedi'r cynhaeaf gyda'r un egni yn yr hydref ag a welwyd yn ein plith trwy'r gwanwyn a'r haf.

***R Alun***

*Cyfeiriad ein gweinidog:*
Y Parchedig Ddr R. Alun Evans, Y Wenallt, 8 Heol Elmgrove, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd, CF14 2BW
Ffôn: 02920 520 854 e-bost: ralun.evans@virgin.net
~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~